I ddod cyn bo hir - Gwasanaeth talu ar-lein newydd

(prydau ysgol a thaliadau i'r ysgol)

Rydym yn falch o gyhoeddi y byddwn cyn bo hir yn derbyn taliadau ar-lein ar gyfer pethau megis arian cinio, teithiau'r ysgol a gwisg ysgol.

Trwy ddefnyddio gwefan ddiogel o'r enw ParentPay, gallwch dalu ar-lein gyda'ch cerdyn debyd neu gredyd.

ParentPay

Y prif nodweddion:

Ysgolion cynradd, bydd rhieni yn gallu archebu prydau ysgol ymlaen llaw drwy'r system newydd
Mewn **ysgolion uwchradd** bydd ParentPay yn integreiddio â'n systemau arlwyo di-arian presennol

Beth yw'r manteision i'r rhieni a'r disgyblion?

- Mae ParentPay yn hawdd i'w ddefnyddio a bydd yn rhoi rhyddid i chi wneud taliadau ar-lein pryd bynnag a ble bynnag y mynnoch.
- Defnyddir technoleg gyda'r diogelwch gorau sydd ar gael, i sicrhau y bydd eich arian yn ein cyrraedd yn ddiogel - ac yn rhoi tawelwch meddwl i chi.
- Gellir talu gyda cherdyn debyd neu gredyd, neu hefyd trwy PayPoint.
- Bydd eich hanes a'ch datganiadau talu llawn ar gael i chi yn ddiogel ar-lein ar unrhyw bryd.
- Ni fydd rhaid i'ch plant boeni am golli arian yn yr ysgol.
- Gall rhieni ddewis cael rhybudd trwy e-bost a/neu neges destun pan fydd eu balans yn isel.

Beth yw'r manteision i'n hysgol?

- Bydd defnyddio ParentPay yn sicrhau bod pob trafod ariannol yn ddiogel - gan wneud ein prosesau'n fwy effeithlon ac yn helpu i ddileu'r costau ynglŷn ag ymdrin ag arian parod yn ddiogel a gofyn am daliadau.
- Bydd mwy o amser gennym i roi cymorth addysgol i ddisgyblion, gan sicrhau bod y gwasanaeth arlwyo a'r ysgol yn gweithredu'n didrafferth.
- Bydd y system newydd yn helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Y Camau Nesaf

Cyn bo hir, byddwn yn anfon llythyrau at rieni/gwarcheidwaid a fydd yn cynnwys manylion actifadu'r cyfrif. Bydd angen i chi ddilyn y cyfarwyddiadau yn y llythyr er mwyn creu cyfrif ar-lein gyda ParentPay.

Yn y cyfamser, os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ParentPay gallwch edrych ar y gwefannau canlynol:-

www.sirgar.llyw.cymru
www.parentpay.com

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR **arleinamdani**
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL **doitonline**
www.carmarthenshire.gov.wales

PCU18821